# SL(6)384 – Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) (Diwygio) 2023

## Cefndir a Diben

Cafodd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig eu sefydlu drwy reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Maent yn gyrff corfforaethol rhanbarthol, sy'n lled debyg i awdurdodau lleol o ran y pwerau a'r dyletswyddau sydd ganddynt, ac maent yn gyfrifol am gynllunio datblygiadau strategol, cynllunio trafnidiaeth ranbarthol a hyrwyddo llesiant economaidd eu hardal.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu Cyd-bwyllgorau Corfforedig at y diffiniad o "*awdurdod perthnasol*" yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001").

Mae Rheoliadau 2001 yn nodi'r amgylchiadau a'r weithdrefn sy'n caniatáu i bwyllgor safonau awdurdod perthnasol roi gollyngiadau i aelodau ac aelodau cyfetholedig rhag y gwaharddiadau yn narpariaethau gorfodol eu codau ymddygiad.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y rheoliad hwn yn rhan o becyn o offerynnau sy'n sail i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac sy'n ceisio sicrhau bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i'r un gofynion gweinyddol a gofynion llywodraethu â gweddill llywodraeth leol. Mae'n mynd ymlaen i nodi mai'r bwriad cyffredinol yw y bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cael ei drin fel rhan o'r "teulu llywodraeth leol" ac y bydd yn ddarostyngedig i raddau helaeth i'r un pwerau a dyletswyddau ag awdurdodau lleol, neu bwerau a dyletswyddau tebyg, yn y ffordd y mae'n gweithredu ac yn cael ei lywodraethu.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(vi) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan nad oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i lunio mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, mae'r memorandwm yn nodi'r hyn a ganlyn:

> "[*Gwnaeth yr asesiadau effaith rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau a sefydlodd y pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig presennol yng Nghymru*] asesu'r costau a'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy reoliadau. Wrth asesu'r costau a'r manteision posibl, ystyriodd yr asesiad effaith rheoleiddiol y bwriad polisi cyffredinol y dylid trin Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel rhan o'r "teulu llywodraeth leol". Felly, cafodd y costau sy'n gysylltiedig â chymhwyso Rheoliadau 2001 i Gyd-bwyllgorau Corfforedig eu hystyried fel rhan o'r asesiad effaith rheoleiddiol ar y rheoliadau sefydlu eu hunain."

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**26 Medi 2023**